# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 18fed o Fai am 1830yh yn Festri capel Bethlehem, Talybont**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Lowri Evans

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cynghorydd Kevin Williams**

**2.Trafodaeth gyda Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd am gais Dyffryn Caredig/Discussion with Huw Davies Dyffryn Gwyrdd**

Cafwyd cyflwyniad gan Huw Davies, Dyffryn Gwyrdd am Drafnidiaeth Cymunedol Dyffryn Ogwen.

**3. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Geraint Hughes

**4. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 13fed o Ebrill 2022.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Ian Morgan am gysylltu gyda Mr John Elis Jones, Ffarm Penrhyn Isaf i geisio cael cytundeb i ddefnyddio rhan o'r tîr ffarm i gydymffurfio gyda rhan 100 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (sydd yn rhoi'r pŵer i awdurdod priffyrdd

ollwng dŵr wyneb o ddraeniau priffyrdd i unrhyw ddyfroedd mewndirol, boed yn naturiol neu'n artiffisial, neu i unrhyw ddyfroedd llanw.)
Dim diweddariad.
**5.2 Arwyddion Maes y Groes –** Cafwyd cadarnhad fod arwyddion Maes y Groes ar rhestr archeb y Cyngor. Nid yw'r rhestr wedi ei gyflwyno i'r cyflenwyr hyd yma. Dim diweddariad.
**5.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes** Y Cyng. Dafydd Meurig yn rhoi cais i osod cyfarpar monitro cyfymder yn y safle**.** Disgwyl ymateb.
**5.4 Bryn Derwas –** Gosod bin halen Bryn Derwas ar rhestr asesiad Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad. Y Clerc i ddilyn i fyny.
**5.5 Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd**. –
Diweddariad gan Debbie Ann Williams, Adran addysg Cyngor Gwynedd. Maent yn aros i glywed am lwyddiant y cais prosiect Cyflwr ac Addasrwydd gan Lywodraeth Cymru.
**5.6 Cyfraddau treth Llanllechid** –Mae'r ymholiad am effaith trosglwyddo eiddo rhwng Cynghorau Cymuned wedi ei flaen yrru am ymateb gan uwch swyddogion sydd yn ymwneud a'r gyllideb (precept). Gweler y gohebiaeth am ddiwedariad gan Rheolwr trethi, Cyngor Gwynedd. Yr ebost wedi ei yrru ymlaen i'r Cyng Geraint Hughes.
**5.7 Safle bws Talybont –**Siwan Llynor yn gobeithio mynychu cyfarfod Mis Mehefin i drafod prosiectau diwylliannol a chelf.
**5.8 Diffyg cyfleusterau i helwyr Cocos ar draeth Lafan –** Ffurflen ar-lein wedi'i chyflwyno gan Y Clerc i Awdurdod Iechyd a Diogelwch. Dim diweddariad. Y Clerc i ddilyn i fyny.

**5.9 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn** – Ian Morgan am drefnu i Eilir Morgan gysylltu gyda Y Cyng. Kevin Williams i geisio trefnu ymweliad ar y cyd i'r safle. Dim Diweddariad.

**5.10 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Dim diweddariad.

**5.11 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Dim diweddariad.

**5.12 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg -** Ebost wedi ei yrru at Swyddog Prosiect Tim Tacluso 'Ardal Ni' yn holi am osod biniau.

**6. Adroddiad Cyngor Sir**

Dim diweddariad.

**7. Cyllid**

Paratowyd adroddiadau y Cyfrifon a'i cyflwyno i'r Cynghorwyr.

**8. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth Clercio 01/04/23 - 30/09/23 | £4,786.32 |
| Julian Johnson | Torri Gwair Mawrth/Ebrill 2023 | £255 |
| BHIB | Adnewyddu Yswiriant | £645.92 |

**9. Cytuno Yswiriant**

Penderfynwyd adnewyddu yswiriant gyda BHIB.

**10. Y Mynydd**

Y Clerc wedi anfon llythyr at Iolo Morris yn egluro Cymal 3 o'r rheolau mynydd;

*3. Gall porwr newydd sydd yn byw yn y plwyf wneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor am ddyraniad o hawliau pori gan nodi ei resymau dros wneud hynny*

Dim diweddariad.

**11. Cae Chwarae Talybont**

**11.1 Container –** Y Cyng Lowri Evans wedi cael dyfyniad am 'container' gan Parciau, Caernarfon. 10 troedfedd £2000 + TAW. 20 troedfedd £3200 + TAW.
Y Cyng. Robin Williams wedi cael dyfyniad am 'container' gan Mark Roberts. 20 troedfedd am £2,100+TAW
Y Cyng. Kevin Williams am ailgysylltu gyda Parciau, Caernarfon.
**11.2 Peiriant torri gwair** - Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.
**11.3** Y Cyng. Robin Williams wedi gwneud ymholiadau gyda ADRA ynglyn a'r posibilrwydd o gydweithio gyda'r Cae Peldroed. Y Clerc wedi anfon ebost at Mr Mathew Gosset - Dirprwyo Gyfarwyddwr Asedau ADRA.
**11.4 Contractwr** - Y Cyng. Alun Thomas am gael manylion contractwr. Dim diweddariad.
**11.5 Torri gwair –** Y Clerc i gysylltu gyda Tir a Coed a Keogh am ddyfyniad torri gwair y Cae Peldroed ac y Cae Chwarae.
**11.6 Grantiau –** Y Clerc i wneud ymholiadau i mewn i grantiau sydd ar gael.

**12. Gohebiaeth**

Trafodwyd y canlynol

**12.1 Ebost gan Cyngor Cymuned Pistyll, Diffygion darpariaeth hyfforddiant yn y Gymraeg. –** Y Clerc i ysgrifennu at Gyngor Cymuned Pistyll i ddogfennu cefnogaeth Cyngor Cymuned Llanllechid.
**12.2 Holiadur Dyffryn Caredig –** Trafodwyd gyda Huw Davies ar gychwyn y cyfarfod. Y Cynghorwyr i lenwi'r holiadur.
**12.3 Cronfa Cymunedau Eryri –** Y Clerc i wneud ymholiadau.

**13. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd fod Y Cyng Jên Morris wedi mynychu cyfarfod 'Ardal Ni' yng nghlwb Rygbi Bethesda.

**14. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/LB61D**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/LB61C**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**C22/1172/21/RA**
Tir gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda
Cais i ryddhau amodau 13 (manylion arwyddion) a 29 (adroddiad archaeoleg) o ganiatad cynllunio C19/0950/21/LL.
**Penderfyniad** Ar y gweill**.**

**C23/0038/21/HT**
Grass Verge, Nr Tal Y Bont, Bangor, LL57 3YL
Cais i osod mast telathrebu 17.5m, antenâu, cypyrddau offer ar y ddaear a datblygiadau cysylltiedig
**Penderfyniad** Ar y gweill.

**Ceisiadau Cynllunio Newydd**

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

## 15. Materion Brys/Eraill

**15.1 Paragleidwyr ar y Mynydd -** Adroddwyd fod gan nifer o'r ffermwyr bryderon am baragleidwyr ar y mynydd a'r effaith y maent yn cael ar y defaid. Y Clerc i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol.
**15.2 Is Bwyllgor Llwybrau -** Y Clerc i drefnu cyfarfod cyn y cyfarfod llawn nesaf.
**15.3 Tai i bobl lleol –** Adroddwyd fod un aelod o'r plwyf a'i theulu yn cael trafferth cael ty Cyngor. Y Clerc i gysylltu gyda Dafydd Meurig.

## 16. Adroddiad Llais Ogwan

Cynhalwyd Cyfarfod Misol a Blynyddol y Cyngor Cymuned ar y 18fed o Fai yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Etholwyd Y Cyng Kevin Williams fel Cadeirydd ac y Cyng Lowri Evans fel Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2023/24.

Hoffem ddiolch i'r Cyn Gadeirydd Y Cyng. Wyn Bowen-Harris am ei holl waith yn ystod 2022/23.

Hefyd etholwyd yr aelodau canlynol

Is Bwyllgor Mynydd – Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Geraint Hughes, Y Cyng Robin Williams.
Is Bwyllgor Llwybrau - Y Cyng Dafydd Keith Jones, Y Cyng Kevin Williams, Y Cyng Jên Morris
Is-Bwyllgor Cyllid - Y Cyng Kevin Williams, Y Cyng Lowri Evans, Y Cyng Geraint Hughes
Is-Bwyllgor Cae Chwarare Talybont - Y Cyng Wyn Bowen-Harris, Y Cyng Evan Jones, Y Cyng Alun Thomas, Y Cyng Gerant Hughes

Cafwyd cyflwyniad gan Huw Davies, Dyffryn Gwyrdd am Drafnidiaeth Cymunedol Dyffryn Ogwen. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â cludiant@ogwen.org

Wrth drafod yr hel mynydd sydd yn mynd i fod eleni, braf fyddai gweld yr holl helwyr yn cadw a chryfhau yr hen arferiad o glymu eu cwn ar dennyn yn ddiogel oddi wrth y gorlan, tra bydd y defaid yn cael eu didol.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________